



Polisi Derbyn Cyfraniadau

Corff sy'n cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad cymeradwyo: 23 Mehefin 2017

Perchennog y polisi: Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni

Cyswllt polisi: Louise Jagger, lmj23@aber.ac.uk

Statws y polisi: Newydd

Adolygwyd ddiwethaf: 23 Mehefin 2017

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2018

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni Polisi Derbyn Cyfraniadau

1 Diben

1.1 Mae Prifysgol Aberystwyth, drwy'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni (y Swyddfa), yn mynd ati'n weithgar i chwilio am gyfraniadau elusennol gan gyfranwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU ac yn rhyngwladol, fel ffynhonnell gyllid gyfreithlon, gyson a phwysig ar gyfer gweithgareddau o fewn amcanion elusennol y Brifysgol. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â gofyn am gyfraniadau elusennol gan gyfranwyr o'r DU a chyfranwyr rhyngwladol, derbyn y cyfraniadau hynny a'u cydnabod yn enw'r Brifysgol mewn modd moesegol, diwyd a chydymffurfiol. Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl roddion elusennol yn cael eu prosesu yn unol â'r polisi hwn.

1.2 Ceir rheidrwydd ar y Brifysgol i sicrhau nad yw'r ffynonellau cyllid ar gyfer cyfraniadau elusennol, a'r diben y defnyddir y cyfraniadau hynny ar ei gyfer, yn tanseilio enw da'r sefydliad mewn unrhyw fodd, nac yn peryglu enw da cyfranwyr presennol y Brifysgol a rhai sydd wedi cyfrannu yn y gorffennol fel rhanddeiliaid allweddol yng nghanhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol. Mae hyn yn berthnasol i gyfraniadau y gofynnir amdanynt ac i gyfraniadau digymell.

1.3 Mae'r Brifysgol yn derbyn cyfraniadau yn unol â'r ddealltwriaeth na all y sawl sy'n cyfrannu arfer unrhyw ddylanwad dros ryddid ac annibyniaeth academiaidd y Brifysgol. Er y gwneir pob ymdrech i osgoi sefyllfa lle bydd rhodd yn cael ei gwrthod, mae'r polisi hwn yn cadarnhau bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod rhodd os bernir nad ydyw er budd y Brifysgol.

1.4 Mae'r polisi hwn yn cadarnhau'r broses a'r lefelau cymeradwyo ar gyfer gofyn am roddion a'u derbyn a rolau cysylltiedig gweinyddiaethau perthnasol eraill, gan gynnwys yr Is-Ganghellor, Grŵp Gweithredol y Brifysgol, y Cyngor a'r adran Gyllid. At ddibenion y polisi hwn, mae cyfraniadau elusennol a rhoddion yn cynnwys arian parod neu sieciau, debydau uniongyrchol ac archebion sefydlog, cyfraniadau ar-lein, cymynroddion, gwaddol cyfranddaliadau, nawdd corfforaethol a grantiau a rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r mathau hynny. Mae'r polisi hwn yn cwmpasu cyfraniadau ac ernesau cyfyngedig a rhai anghyfyngedig.

1.5 Cyfarwyddwr y Swyddfa sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o ymchwilio, targedu, gofyn am a negodi'r holl gyfraniadau a chytundebau rhodd yn cydymffurfio, ac am ddirprwyo cyfrifoldebau yn unol â hynny o fewn ei (h)adran ac/neu i asiantaethau allanol a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y gweithgareddau hyn. Felly ni ddylai unrhyw Swyddog/Swyddfa arall yn y Brifysgol ofyn am, derbyn, gwrthod na chydabod cyfraniadau elusennol, naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, heb ymwneud ymlaen llaw â Chyfarwyddwr y Swyddfa, a chael cymeradwyaeth ganddo/i. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am gyfleu'r polisi hwn i'r holl staff ac am dynnu sylw'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a'r Is-Ganghellor at unrhyw achos posibl o dorri'r polisi, gan gynnwys pan fydd rhannau eraill o'r Brifysgol wedi derbyn arian drwy gyfraniadau y gofynnwyd amdanynt neu rai digymell.

1.6. Bydd Cyfarwyddwyr y Swyddfa yn cynghori'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Academaidd Campws Mauritius Prifysgol Aberystwyth ar y prosesau angenrheidiol er mwyn derbyn cyfraniadau ar gyfer Prifysgol Aberystwyth Mauritius yn unol â pholisi Prifysgol Aberystwyth. Bydd Cyfarwyddwr Academaidd Campws Mauritius Prifysgol Aberystwyth yn rhoi gwybod i Gyfarwyddwr y Swyddfa ar gam cynnar am unrhyw gynlluniau a phrosesau codi arian o eiddo Prifysgol Aberystwyth Mauritius, a bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa yn adolygu'r polisi hwn a, lle bo gofyn, yn cynnig atodiad i bolisi derbyn cyfraniadau'r Brifysgol, neu bolisi ar wahân.

1.7 Mae'r polisi'n cael ei lywio gan y Ddeddf Elusennau, canllawiau'r Comisiwn Elusennau 'Protecting Charities from Harm: Chapter 2 Due diligence, Monitoring and Verification of End Use of Charitable Funds (2011)' a'r ymarfer gorau yn y sector. Mae'r polisi hefyd yn dilyn 'Donations Acceptance and Refusal Policies and Processes Guidance (2012)' y Sefydliad Codi Arian, ac yn rhestru'r ddeddfwriaeth berthnasol a geir yn y ddogfen hon er mwyn cyfeirio atynt yn Atodiad 1.

1.8 Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i dryloywder o ran y polisi hwn, a bydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni.

2 Eithriadau

2.1 Mae'r polisi yn eithrio cyfraniadau o unrhyw werth ar ffurf eiddo tirol neu roddion mewn nwyddau y ceir amodau ar eu cyfer (megis rhwymedigaeth i beidio gwireddu eu gwerth) neu a allai arwain at wariant posibl ar ran y Brifysgol (megis eiddo a chanddo gyfamodau neu rwymedigaethau cyfyngol).

2.2 Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, fodd bynnag, yn cynghori'r adran Gyllid a Swyddogion eraill, yn ôl y gofyn, ar lefelau'r diwydrwydd sy'n ofynnol wrth dderbyn neu, o bosibl, wrthod rhoddion o'r fath ac yn cynghori ar delerau'r cytundebau a diolch a chydabod yn unol â'r polisi derbyn cyfraniadau a'r egwyddorion ar gyfer cynnal perthynas gydol oes â chefnogwyr y Brifysgol.

3 Egwyddorion

3.1 Mae'r Brifysgol yn glynu at y 10 egwyddor foesegol ar gyfer derbyn rhoddion a ddatblygwyd gan CASE Europe (Centre for the Advancement and Support of Education), Grŵp Ross a Grŵp 1994 o Gyfarwyddwyr Datblygu:

http://www.case.org/Samples_Research_and_Tools/Principles_of_Practice/CASE_Europe_Guidelines_Ethical_Principles_Behind_the_Acceptance_of_Gifts.html

3.2 Dyma'r 10 egwyddor:

- i. Dylai Prifysgolion chwilio am gefnogaeth haelionus sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd, eu nodau strategol a'u hanghenion ariannol, fel elfen gyfreithlon, gyson a hanfodol o'u hincwm.
- ii. Dylai'r canllawiau moesegol ar dderbyn rhoddion o'r fath mewn unrhyw sefydliad fod ar gael yn y parth cyhoeddus.

- iii. Ymchwil, ysgolheictod ac addysgu diduedd, annibynnol yw'r sail i ddatblygu gwybodaeth. Ni ddylai prifysgolion dderbyn rhoddion haelionus os nad yw pawb yn deall hyn yn glir ac yn ei dderbyn.
- iv. Cyrff elusennol yw prifysgolion a rhaid iddynt lynu at ofynion cyfraith elusennau a deddfwriaeth berthnasol arall o ran derbyn a gwario arian. Corff llywodraethu pob prifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am dderbyn a gwrthod cyfraniadau.
- v. Pan fydd yr awdurdod i dderbyn cyfraniadau yn cael ei ddirprwyo i'r Is-Ganghellor ac i uwch academyddion neu swyddogion eraill, dylai'r awdurdod hwnnw fod yn glir a rhaid cael dealltwriaeth glir o'r cyfrifoldeb ar y rheini sy'n derbyn rhoddion i weithredu polisiau a gweithdrefnau moesegol manwl y sefydliad ar gyfraniadau, gan arfer y cyfrifoldeb hwnnw mewn modd cyson.
- vi. Dylai prifysgolion gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ffynhonnell nawdd pob rhodd, a dylai fod ganddynt brosesau ar waith i'w bodloni eu hunain nad yw'r arian yn deillio o weithgarwch a oedd neu sydd yn anghyfreithlon, neu sy'n mynd yn groes i werthoedd craidd ymchwil, ysgolheictod ac addysgu diduedd, annibynnol.
- vii. Dylai trafodaethau â chyfranwyr posibl sy'n debygol o esgor ar ddiddordeb mawr yn gyhoeddus, neu sy'n codi cwestiynau cymhleth o ran derbyn y cyfraniad, gael eu hystyried ar y cam cynharaf posibl gan y bobl briodol sy'n gwneud penderfyniadau, a dylai fod ganddynt y wybodaeth gyflawn am ddiben a chefnidir y cyfraniad a ffynhonnell yr arian.
- viii. Dylid hefyd ystyried hawliau cyfreithiol cyfranwyr posibl, a'u hawliau o ran eu henw da, yn rhan o unrhyw ddiwydrwydd dyladwy a geir wrth asesu a ddylid derbyn cyfraniad arfaethedig. Yn hyn o beth, dylid gwahaniaethu'n glir rhwng sïon neu ddyfalu a materion sy'n ffeithiau a gadarnhawyd neu'n ganfyddiadau cyfreithiol, gan dderbyn hefyd y gallai sefydliadau fod eisiau ystyried y risgiau posibl i'w henw da yn sgil canfyddiad y cyhoedd ynghylch unrhyw gyfrannwr penodol.
- ix. Rhaid i gyfranwyr dderbyn ac, ar gyfer rhoddion sylweddol (yn unol â'r hyn a bennir gan sefydliadau unigol), lofnodi cytundebau rhodd priodol i gadarnhau mai'r brifysgol yn unig fydd yn gyfrifol am reoli a llywodraethu rhaglenni a ariennir drwy roddion. Fel arfer bydd sefydliadau unigol yn dewis cynnig cyfleoedd i gyfranwyr barhau eu hymwneud â'r gweithgareddau y maent wedi'u hariannu, heb danseilio'r egwyddor graidd hon. Dylai prifysgolion ddefnyddio eu gweithdrefnau arferol mewn perthynas â denu myfyrwyr, derbyn myfyrwyr, cyflogi, dyrchafu, caffael, rheoli a llywodraethu yr holl ymchwil, addysgu, allgymorth, datblygiadau cyfalaf neu raglenni ysgoloriaeth i fyfyrwyr a ariennir gan roddion.
- x. Dylai fod gan brifysgolion weithdrefnau mewn lle i adolygu ac ailystyried penderfyniadau blaenorol a wnaed yn ddiwyll o ran derbyn rhoddion penodol os bydd hynny'n ofynnol yn sgil digwyddiadau wedi hynny, neu yn sgil gwybodaeth ychwanegol a ddaw'n hysbys wedi hynny. Dylai'r ymateb i amgylchiadau o'r fath fod yn dryloyw ac yn gyfrannol i'r amgylchiadau penodol sydd wedi codi.

3.3 Bydd y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn cydymffurfio â'r Addewid Codi Arian a Chodau Ymddygiad fel aelod cofrestredig o'r Rheoleiddiwr Codi Arian. Bydd y Swyddfa yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, ymarfer gorau'r sector a pholisi PA mewn perthynas â data a gesglir, a fireinir ac a ddadansoddir wrth ofyn am roddion a

diwydrwydd dyladwy wrth ymchwilio i gyfranwyr presennol a darpar gyfranwyr o fewn y gronfa ddata bresennol o gofnodion alumni a chefnogwyr.

3.4 Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi'r Addewid Codi Arian (Atodiad 2), Codau Ymddygiad a datganiadau preifatrwydd data ar wefan y Swyddfa.

4 Gofyn am roddion

4.1 Bydd Prifysgol Aberystwyth, drwy'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yn gofyn am bob cyfraniad elusennol, ac yn eu negodi, yn unol â'r safonau moesegol uchaf ym mhob ymwneud â chefnogwyr posibl a chefnogwyr presennol ac yn unol â'r egwyddorion yn Adran 3.

4.2 Dim ond ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau y mae'r Is-Ganghellor wedi eu cymeradwyo fel rhai sy'n berthnasol yn strategol ac sy'n bwysig i'r Brifysgol, ac nad oes ganddynt unrhyw risg ariannol na risg i'w henw da yn ystod y cyfraniad neu ar ddiwedd y cyfnod, y bydd y Brifysgol yn gofyn am nawdd elusennol.

4.3 Gofynnir am roddion yn unol â strategaeth y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, cynlluniau blynyddol a chynlluniau apêl a hyd at lefelau cymeradwyo sy'n cael eu cadarnhau yn 5 isod, *'Dirprwyo'r awdurdod i ofyn am roddion unigol, a'u derbyn'*.

4.4 Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa hefyd yn gyfrifol am gyflwyno a chofnodi'r holl gytundebau rhodd ar gyfer cyfraniadau o £10,000 a mwy gan ddefnyddio templed cytundeb rhodd safonol y cytunwyd arno â'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol. (Gweler Atodiad 3 ar gyfer y cytundeb diweddaraf ar gyfer y polisi hwn.) Bydd y Cytundeb Rhodd yn cynnwys unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r rhodd a negodwyd rhwng y cyfrannwr a'r Brifysgol. Cofnodir y Cytundeb ar gofnod y cyfrannwr yng nghronfa ddata'r Swyddfa ac anfonir copi at y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol. Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa yn gyfrifol am gofnodi symiau dan £10,000 ar gronfa ddata yr adran ac am gyfeirio unrhyw ymholiadau a risgiau posibl ynglŷn â'r symiau hyn i'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol fel y bo'n briodol.

4.5 Pan fydd cyfraniadau'n cael eu haddo ar ffurf rhandaliadau, bydd y trothwy yn seiliedig ar gyfanswm cronus yr holl randaliadau. Pan fydd rhoddion yn rhai diddiwedd, bydd y trothwy yn seiliedig ar werth cronus pum mlynedd o roddion.

4.6 Anogir cyfranwyr i geisio cyngor annibynnol os yw'r Brifysgol yn barnu y gallai rhodd arfaethedig effeithio'n sylweddol ar amgylchiadau ariannol y cyfrannwr, ei incwm trethadwy neu ei berthynas â thrydydd partion.

5 Dirprwyo'r awdurdod i ofyn am roddion unigol, a'u derbyn

5.1 Dangosir lefelau'r awdurdod a ddirprwywyd yn y tabl isod, heb gynnwys rhodd cymorth lle bo'n gymwys.

5.2 Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn gyfrifol am sicrhau'r lefelau gofynnol o ddiwydrwydd ar gyfer pob lefel drwy ymchwilio i wybodaeth sydd ar gael yn y parth cyhoeddus a thrwy drydydd partion ac yn unol â chanllawiau moesegol CASE uchod a'r polisi yn Adran 6 isod.

5.3 Yn unol â strategaethau ar gyfer apelïadau neu ymgyrchoedd codi arian mawr, ac yn enwedig y rhai hynny a chanddynt ystod o gyfleoedd enwi a chydabod, gall Cyfarwyddwr y Swyddfa argymhell i'r Is-Ganghellor bod y Brifysgol yn sefydlu Grŵp Derbyn Rhoddion er mwyn cymeradwyo a monitro'r gwaith o ofyn am gyfraniadau a'u derbyn.

5.4 Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r adran i gefnogi ei gwaith codi arian yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cadarnhau eu dealltwriaeth ohono yn ysgrifenedig. Bydd cefnogaeth o'r fath yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, gymorth â chyflwyniadau personol, cynnal digwyddiadau, bod yn gwmni i'r Cyfarwyddwr wrth gwrdd cyfranwyr a chyfranwyr tebygol, cynorthwyo â gwaith dilynol a meithrin a chynnal perthynasau.

5.5 Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw asiantaeth a gomisiynir i gefnogi gwaith codi arian mawr gan gyfranwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cadarnhau hyn yn ei chytundeb.

5.6 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adolygu ac, o bosibl, i ailystyried penderfyniadau a wnaed yn y gorffennol o ran derbyn cyfraniadau elusennol mewn ymateb i wybodaeth newydd neu newidiadau mewn blaenoriaethau strategol.

Awdurdod	Gofyn am gyfraniadau	Derbyn cyfraniadau
Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni	Gofyn am gyfraniadau o hyd at £1 miliwn <u>ar yr amod</u> yr ymgynghorir â Dirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg, Diwylliant a Chysylltiadau Allanol a'r Cyfarwyddwr Cyllid a'u bod yn cymeradwyo pob cais am £500,000 neu fwy <u>a</u> phob cais pan gynigir cyfle cydnabod yn rhan o'r broses o ofyn a negodi	Rhoddion hyd at £100,000 Rhoddion dienw hyd at £10,000
Yr Is-Ganghellor	Gofyn am gyfraniadau sydd â'r potensial i fod yn fwy nag £1 miliwn	Rhoddion dros £100,000 hyd at £5 miliwn Rhoddion dienw o £10,000-£25,000
Y Cyngor	Ceisiadau y mae'r Is-Ganghellor yn barnu y gallent fod yn sensitif e.e. gan fyfyrwr presennol neu ddarpar fyfyrwr, aelod presennol o staff, cyflenwr neu gyflenwr arfaethedig, neu eu teuluoedd.	Rhoddion sy'n fwy na £5 miliwn a Rhoddion dienw o £25,000 neu fwy (gweler isod)

5.7 O ran rhoddion dienw o £25,000 a mwy, bydd y Cyfarwyddwr yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn o 2011, sy'n datgan, *'Dan y drefn adrodd ar ddiwyddiadau difrifol, dylai'r Cyngor, fel ymddiriedolwyr, gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn os bydd symiau sylweddol o arian neu eiddo arall yn cael eu cyfrannu i'r elusen o ffynhonnell anhysbys neu un sydd heb ei dilysu. Gallai hyn olygu un cyfraniad unigol anarferol o fawr neu gyfres o gyfraniadau llai gan ffynhonnell na allwch ei chanfod neu ei gwirio. Byddem yn disgwyl i ymddiriedolwyr roi gwybod am unrhyw daliad (neu daliadau) o'r fath sy'n werth £25,000 neu fwy. Mae angen i ymddiriedolwyr fod yn effro hefyd i'r risg y gallai unigolion fod yn codi arian yn enw'r elusen nad ydyw fyth yn cyrraedd yr elusen, neu mai dim ond rhywfaint o'r arian sy'n cael ei drosglwyddo iddi. Os oes gan ymddiriedolwyr bryderon bod hyn yn digwydd, eto, mae angen iddynt roi gwybod am hyn i'r awdurdodau priodol' (cyfieithiad).*

6 Diwydrwydd

6.1 Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn gyfrifol am y lefelau priodol o ddiwydrwydd dyladwy ar gyfer cynlluniau a chynigion wrth ofyn am gyfraniadau a'u derbyn, ac am gadarnhau'r diwydrwydd a gafwyd wrth yr Is-Ganghellor a'r Cyngor gyda chytundebau rhodd drafft yn unol â'r terfynau dirprwyo uchod.

6.2 Bydd lefel y diwydrwydd dyladwy yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac asesiad y Cyfarwyddwr o'r risgiau i'r Brifysgol a chydymffurfio â'r egwyddorion perthnasol yn Adran 2 uchod, sef:

- vi. Dylai prifysgolion gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ffynhonnell nawdd pob rhodd, a bod â phrosesau ar waith i'w bodloni eu hunain nad yw'r arian yn deillio o weithgarwch a oedd neu sydd yn anghyfreithlon, neu sy'n mynd yn groes i werthoedd craidd ymchwil, ysgolheictod ac addysgu diduedd, annibynnol.
- vii. Dylai trafodaethau â chyfranwyr posibl sy'n debygol o esgor ar ddiddordeb mawr yn gyhoeddus, neu sy'n codi cwestiynau cymhleth o ran derbyn y cyfraniad, gael eu hystyried ar y cam cynharaf posibl gan y bobl briodol sy'n gwneud penderfyniadau, a dylai fod ganddynt y wybodaeth gyflawn am ddiben a chefnidir y cyfraniad a ffynhonnell yr arian.
- viii. Dylid hefyd ystyried hawliau cyfreithiol cyfranwyr posibl, a'u hawliau o ran eu henw da, yn rhan o unrhyw ddiwydrwydd dyladwy a geir wrth asesu a ddylid derbyn cyfraniad arfaethedig. Yn hyn o beth, dylid gwahaniaethu'n glir rhwng sïon neu ddyfalu a materion sy'n ffeithiau a gadarnhawyd neu'n ganfyddiadau cyfreithiol, gan dderbyn hefyd y gallai sefydliadau fod eisiau ystyried y risgiau posibl i'w henw da yn sgil canfyddiad y cyhoedd ynghylch unrhyw gyfrannwr penodol.

6.3 Mae'r diwydrwydd yn berthnasol i'r holl gyfranwyr unigol a chorfforaethol. Bydd y Cyfarwyddwr yn arfer ei (d)disgresiwn ynghylch lefel y diwydrwydd ar gyfer ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol sy'n gofrestredig â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ac/neu Reoleiddiwr Elusennau yr Alban.

6.4 Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa yn argymhell i'r Is-Ganghellor unrhyw lefelau diwydrwydd ychwanegol ac/neu annibynnol ac/neu gyngor cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd gofyn am gyfraniadau a'u derbyn sy'n gymhleth neu a allai fod yn sensitif, ac anawsterau gwirio manylion adnabod, gan gynnwys cyfraniadau gan gyfranwyr nad ydynt yn byw yn y DU, neu gyfraniadau o arian sy'n deillio o'r tu allan i'r DU. Bydd yr Is-Ganghellor yn ystyried costau wrth gefn ar gyfer diwydrwydd o'r fath mewn cylchoedd cyllideb blynyddol ac apeliadau codi arian mawr.

6.5 Ar gyfer rhoddion o hyd at £50,000, bydd y Cyfarwyddwr yn comisiynu ac yn adolygu lefel ddiwydrwydd cam 1, gan gynnwys:

- hanes prifysgol a gwybodaeth fywgraffyddol, gan gynnwys swyddi cyhoeddus ac/neu wleidyddol a gafwyd a'r berthynas bresennol â'r Brifysgol, gan gynnwys myfyriwr presennol/darpar fyfyrwr/aelod o'i deulu, aelod o staff neu gyflenwr
- Gwirio cronfa ddata fusnes
- Adolygu newyddion ac unrhyw wybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw wybodaeth bosibl am weithgarwch anghyfreithlon e.e. osgoi trethi, twyll, hawliau dynol, ffugio, llwgrwobrwyo, materion dadleuol a throseddau
- Adolygiad y Comisiwn Elusennau

6.6 Ar gyfer rhoddion o £50,000 a mwy, bydd y Cyfarwyddwr yn comisiynu ac yn adolygu lefel ddiwydrwydd cam 2. Bydd y lefel o ddiwydrwydd a geir yn ddibynnol ar ystyriaethau yn ymwneud â chyfranwyr penodol, telerau arfaethedig unrhyw rodd a'r lefelau o gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn Adran 5 uchod. Gall ymchwil a diwydrwydd pellach gynnwys, o bosibl, yr elfennau isod (ond ni fydd yn gyfyngedig iddynt):

- Chwilio ymhellach ar y rhyngwyd i ymchwilio i gysylltiadau posibl â thrydydd partïon sydd â'r potensial o ddwyn gwarth ar y Brifysgol
- Gwiriadau moesegol – gan gynnwys adroddiadau gan gyrff anllywodraethol a mudiadau hawliau dynol ac/neu amgylcheddol
- Gwiriadau ar uniondeb academiaidd y cyfrannwr a thystiolaeth o weithredu sydd wedi cyfyngu ar y rhyddid i wneud ymholiadau neu wedi ymyrryd â rhyddid academiaidd
- Cyngor cyfreithiol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol rhyngwladol, a hwnnw'n cynnwys cyngor ar y cytundeb rhodd ac unrhyw amodau.

7 Diolch a Chydnabod

7.1 Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni sy'n gyfrifol am ddiolch i gyfranwyr am eu cyfraniadau yn brydlon ac yn briodol, ac am gofnodi'r holl gyfathrebu perthnasol a pharhaus â'r cyfranwyr ar gronfa ddata'r Swyddfa.

7.2 Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol hefyd am sicrhau y cydymffurfir â dymuniadau cyfranwyr i aros yn ddienw, ac y rhoddir gwybod i gyfranwyr ar y cyfle cynharaf posibl am unrhyw risgiau posibl i'w statws dienw.

7.3 Cyfarwyddwr y Swyddfa sy'n gyfrifol am gynnig a negodi lefelau cyfrannol o gydnabyddiaeth a sicrhau cymeradwyaeth fewnol (e.e. enwi adeilad/offer/ysgoloriaeth) ar y

lefelau a nodir yn Adran 5 uchod. Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa yn gyfrifol am sicrhau y ceir ymgynghori priodol â'r holl randdeiliaid mewnol ar gyfleoedd cydnabod posibl yn unol â'r gymeradwyaeth uchod. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarwyddwyr yr Athrofeydd, yr Adran Ystadau, y Pennaeth Cyfathrebu, y Cyfarwyddwr Marchnata, y Cyfarwyddwr Moeseg a'r Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, er nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhain ychwaith.

7.4 Bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi gwybod i'r Is-Ganghellor a'r Cyngor am gyfleoedd i gydnabod fesul achos, gan argymhell ar sail ystyriaethau cyfranoldeb ac ystyriaethau strategol ac unrhyw gyhoeddusrwydd niweidiol posibl neu risg i enw da'r Brifysgol a champau i leihau hyn cymaint â phosibl. Bydd y Cyfarwyddwr yn cymeradwyo rhestr flynyddol o roddion a geir yng ngohebiaeth y Brifysgol i alumni (cylchgrawn PROM).

7.5 Gall Cyngor y Brifysgol gael gwared ar unrhyw enwi a fu os cyfyd pryderon yn ddiweddarach ynghylch ffynhonnell nawdd y cyfrannwr eu os bydd risg i enw da'r Brifysgol yn deillio o'i chysylltiad ac/neu ei pherthynas â'r cyfrannwr.

8 Cwynion

8.1 Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn ymateb yn brydlon i gŵyn gan gyfrannwr neu ddarpar gyfrannwr ynghylch unrhyw agwedd ar y polisi hwn a bydd yn rhoi gwybod i Ddirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg, Diwylliant a Chysylltiadau Allanol, yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor am bob cŵyn sy'n ymwneud â symiau neu botensial o £25,000 a mwy.

9 Adrodd ac adolygu

9.1 Bydd Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar roddion unigol o £10,000 a mwy a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ac ar unrhyw faterion sy'n deillio ac sy'n ymwneud â'r polisi hwn a'r camau a gymerwyd.

9.2 Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am roi gwybod i'r Is-Ganghellor yn ddi-oed am unrhyw newidiadau o ran cydymffurfio a'r arfer gorau a allai effeithio ar y polisi hwn, ac yn gyfrifol hefyd am gynnig diwygiadau perthnasol.

9.3 Bydd y Cyfarwyddwr yn cael cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol er mwyn addasu ac/neu ddiweddarau'r templed cytundeb rhodd safonol yn Atodiad 3.

9.4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol bob blwyddyn.

Cyfarwyddwr, Datblygu a Chysylltiadau

Alumni

Mai 2017 (Diwygiwyd o 2009)

Atodiad 1: Pa ddeddfwriaeth/rheoliadau y mae angen eu hystyried?

Isod ceir **cyfieithiad o ddyfyniad** o 'Donations Acceptance and Refusal Policies and Processes Guidance (2012)' y Sefydliad Codi Arian.

<http://www.institute-of-fundraising.org.uk/code-of-fundraising-practice/guidance/acceptance-and-refusal-of-donations-guidance/>

Dylai eich Polisi Derbyn Cyfraniadau ystyried y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol, ac ymhlith yr enghreifftiau allweddol mae:

- *Deddf Elusennau 1992: mewn perthynas â chyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol.*
- *Deddf Elusennau 2011: mewn perthynas â gofyn barn y Comisiwn Elusennau ynghylch a ddylid derbyn neu wrthod cyfraniad penodol, neu orchymyn i gymeradwyo ymwneud yr ymddiriedolwyr ag eiddo elusen.*
- *Diogelu Data 1998: mewn perthynas ag ymdrin â data personol unrhyw gyfranwyr.*
- *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth.*
- *Deddf Llwgrwobrwyo 2010: mewn perthynas â throeddau llwgrwobrwyo.*
- *Deddf Cyllid 2011: mewn perthynas â chyfraniadau elusennol halogedig.*
- *Deddf Enillion Troseddau 2002: mewn perthynas ag amheuaeth o wyngalchu arian.*
- *Deddf Terfysgaeth 2000: mewn perthynas â datgelu credoau neu amheuron ynghylch troseddau terfysgaeth.*
- *Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005: mewn perthynas â rheoleiddio cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol yn yr Alban, a dyletswyddau ehangach ymddiriedolwyr elusennau o ran rheoli materion a chyllid yr elusen.*
- *Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008*

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, a gall gwahanol faterion cyfreithiol fod yn berthnasol gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol. Dylai polisiâu elusennol hefyd ystyried canllawiau perthnasol y Comisiwn Elusennau, sydd (adeg cyhoeddi'r ddogfen hon) yn cynnwys:

- *CC20 "Charities and Fundraising" – mae adran F4 yn cwmpasu derbyn cyfraniadau a chanddynt amodau, a gwrthod cyfraniadau.*
- *Pecyn Cymorth Cydymffurfio y Comisiwn Elusennau "Protecting Your Charity from Harm"*

Gall yna hefyd fod ystyriaethau treth yn gysylltiedig â chyfraniadau neu gyfranwyr ac felly dylai sefydliadau roi ystyriaeth o ddifrif i wirio unrhyw bolisi gyda gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith ac/neu gyllid.

Atodiad 2: Addewid Codi Arian (i'w diweddarw gan y Rheoleiddiwr Codi Arian yn 2017)

<https://www.aber.ac.uk/cy/development/support/donorscharter/#addewid-codi-arian>

BYDDWN YN YMRWYMO I SAFONAU UCHEL

- Byddwn yn dilyn y Cod Ymarfer Codi Arian
- Byddwn yn monitro codwyr arian, gwirfoddolwyr a thrydydd partïon sy'n gweithio gyda ni i godi arian, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Codi Arian a'r Addewid hon.
- Byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith fel y bo'n gymwys i elusennau a chodi arian.
- Byddwn yn arddangos y bathodyn Rheoleiddiwr Codi Arian ar ein deunyddiau codi arian i ddangos ein bod wedi ymrwymo i arferion da.

BYDDWN YN GLIR, YN ONEST AC YN AGORED

- Byddwn yn dweud y gwir ac ni fyddwn yn gor-ddweud.
- Byddwn yn gwneud yr hyn y dywedwn y byddwn yn ei wneud gyda'r rhoddion a gawn.
- Byddwn yn glir ynghylch pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.
- Byddwn yn rhoi esboniad clir o sut y gallwch wneud rhodd a newid rhodd reolaidd.
- Os gofynnwn i drydydd parti godi arian ar ein rhan, byddwn yn gwneud y berthynas hon a'r trefniadau ariannol yn dryloyw.
- Byddwn yn gallu esbonio ein costau codi arian a dangos sut maent er lles gorau ein hachos os cawn ein herio.
- Byddwn yn sicrhau bod ein proses gwyno yn glir ac yn hygyrch.
- Byddwn yn rhoi rhesymau clir yn seiliedig ar dystiolaeth am ein penderfyniadau am gwynion.

BYDDWN YN BARCHUS

- Byddwn yn parchu eich hawliau a'ch preifatrwydd.
- Ni fyddwn yn rhoi gormod o bwysau arnoch i wneud rhodd. Os nad ydych am roi neu eich bod am roi'r gorau i roi, byddwn yn parchu eich penderfyniad.
- Bydd gweithdrefn gennym yn ei lle ar gyfer delio â phobl mewn amgylchiadau agored i niwed a bydd ar gael ar gais.
- Os yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol, byddwn yn cael eich cydsyniad cyn cysylltu â chi i godi arian.
- Os dywedwch wrthym nad ydych am i ni gysylltu â chi mewn ffordd arbennig ni fyddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn, Post a Chodi Arian i sicrhau nad yw'r rhai sy'n dewis peidio â derbyn mathau penodol o gyfathrebu yn eu cael.

BYDDWN YN DEG AC YN RHESYMOL

- Byddwn yn trin rhoddwyr a'r cyhoedd yn deg, gan ddangos sensitifrwydd ac addasu ein hymagwedd yn dibynnu ar eich anghenion.
- Byddwn yn gofalu peidio â defnyddio unrhyw ddelweddau neu eiriau sy'n achosi gofid neu bryder yn fwriadol.
- Byddwn yn gofalu peidio ag achosi niwsans neu amharu ar y cyhoedd.

BYDDWN YN ATEBOL AC YN GYFRIFOL

- Byddwn yn rheoli ein hadnoddau mewn modd cyfrifol ac yn ystyried effaith ein codi arian ar ein rhoddwyr, ein cefnogwyr a'r cyhoedd.
- Os ydych yn anhapus ag unrhyw beth rydym wedi'i wneud wrth godi arian, gallwch gysylltu â ni i wneud cwyn. Byddwn yn gwrandao ar adborth ac yn ymateb yn briodol i'r cwynion a'r feirniadaeth a gawn.
- Bydd trefn gwyno gennym, a bydd copi ohoni ar gael ar ein gwefan neu bydd ar gael ar gais.
- Bydd ein trefn gwyno yn rhoi gwybod i chi sut i gysylltu â'r Rheoleiddiwr Codi Arian os teimlwch fod ein hymateb yn anfodhaol.
- Byddwn yn monitro ac yn cofnodi nifer y cwynion a gawn bob blwyddyn ac yn rhannu'r data hyn gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ar gais.